



AROLWG BLYNYDDOL

2001 2002 2003 2004 **2005-2006** 2007 2008 2009 2010



University of Wales, Bangor



Gair gan yr IS-GANGHELLOR



Yr Athro Merfyn Jones

Tachwedd 2006

“Mae'r cyfnod dan sylw yn yr Arolwg blynyddol hwn wedi bod yn un o ddatblygiadau pwysig iawn, ac erbyn hyn rydym mewn sefyllfa dda i symud ymlaen, a hynny yn wyneb cystadleuaeth galed iawn o du prifysgolion eraill yng ngwledydd Prydain ac yn rhyngwladol

Gyda'n gilydd, rydym wedi cyflawni llawer iawn dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae ystyried rhai o'r llwyddiannau hyn yn dangos pa mor bell rydym wedi teithio mewn cyfnod mor fyr.

Rhagoriaeth yw thema waelodol ein cynllun strategol, ac rydym yn buddsoddi'n drwm i gyflawni ein hamcanion. Trwy reolaeth ofalus rydym wedi gwella sefyllfa ariannol y Brifysgol ac, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae hyn wedi ein galluogi i fuddsoddi mewn meysydd allweddol.

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom hysbysebu am 50 o academyddion newydd (yn cynnwys 23 o athrawon) fel rhan o becyn £10 miliwn i gryfhau ein sefyllfa fel prifysgol ymchwil o safon ryngwladol, a hefyd i ddarparu addysg o safon uchel i'n myfyrwyr. Rwy'n falch iawn o groesawu'r rhai sydd eisoes wedi ymuno â ni, ac yn edrych ymlaen at benodiadau pellach dros y misoedd i ddod.

Yn dilyn asesiad trylwyr gan y QAA a barodd flwyddyn gyfan, mae'r Cyfrin Gyngor wedi ein hysbysu bod ein cais am Bwerau i Ddyfarnu Graddau Hyfforddedig ac Ymchwil wedi cael ei gymeradwyo. Bydd y pwerau yn cael eu cyflwyno'n ffurfiol pan fydd y Cyfrin Gyngor wedi cymeradwyo'r newidiadau angenrheidiol i Siarter PCB. Mae hon yn gryn orchest i'r Brifysgol ac yn nodi carreg filltir bwysig iawn arall yn ein hanes.



Rydym wedi dod â'n hysgolion academiaidd at ei gilydd drwy greu chwe Choleg newydd. Bydd y rhain yn ganolbwynt ar gyfer cydweithio helaethach mewn llawer o feysydd, ond yn arbennig mewn ymchwil ac addysgu.

Mae un o'r sialensiau mwyaf sy'n ein hwynebu yn ymwneud â'n hystâd. Mae ein staff, myfyrwyr ac ymwelwyr i gyd yn disgwyl adeiladau o safon uchel i weithio ac astudio ynddynt, ac rydym eisoes wedi cymryd camau breision i sicrhau y bydd ein cyfleusterau'n addas ar gyfer y dyfodol. Yn barod mae nifer o ddatblygiadau uchelgeisiol ar y gweill mewn gwahanol rannau o'r campws. Mae datblygiadau pellach wedi cael eu cynllunio dros yr ychydig flynyddoedd nesaf fel rhan o Strategaeth Ystadau uchelgeisiol a fydd yn chwarae rhan bwysig mewn denu myfyrwyr, staff a busnesau i'r ardal, yn ogystal â darparu adeiladau o safon uwch yn ninas Bangor.

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom lwyddo i gael cyllid ar gyfer nifer o broiectau. Y pwysicaf oedd grant o £7.5 miliwn gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i ddatblygu Partneriaeth Ymchwil a Menter gyda Phrifysgol Cymru, Aberystwyth ac i arwain Sefydliad Niwrowyddoniaeth Wybyddol Cymru gyda Phrifysgolion Abertawe a Chaerdydd.

Fel mae'r uchafbwyntiau byr hyn yn dangos, rydym wedi cyflawni llawer iawn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ond, i barhau'n llwyddiannus, mae'n rhaid i ni newid ac ymaddasu'n barhaus. Rhagoriaeth yw ein nod ac i wneud hynny mae'n rhaid i ni godi ein golygon, gosod targedau uchelgeisiol i ni'n hunain, a buddsoddi. Trwy wneud hynny'n union, a thrwy weithio gyda'n gilydd, fe lwyddwn i wneud Bangor yn Brifysgol o'r safon uchaf yng ngwir ystyr y gair.

Arolwg Blynyddol 2005 - 2006

Golygydd: Elinor Elis-Williams, Adran Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata, Prifysgol Cymru, Bangor, Gwynedd LL57 2DG.
Ffôn: 01248 383298. press@bangor.ac.uk



Edrych tua'r **DYFODOL**



Fel rhan o'r ehangu academiaidd mwyaf ers degawdau, mae'r brifysgol yn mynd i benodi dros 50 o academyddion newydd, yn cynnwys 23 o athrawon. Disgrifiwyd hyn fel un o'r camau pwysicaf i Addysg Uwch yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Meddai Is-Ganghellor y Brifysgol, Yr Athro Merfyn Jones: "Rydym yn buddsoddi cyfanswm o £10 miliwn dros y pedair blynedd nesaf yn y swyddi newydd yma. Bydd hyn yn cryfhau ein safle fel Prifysgol ymchwil o safon ryngwladol a hefyd yn sicrhau addysg o'r safon uchaf i'n myfyrwyr."

Ymysg y swyddi i'w hysbysebu mae Cadeiriau mewn **Genomeg Amgylcheddol, Systemau Amgylcheddol, Bioleg Môr Moroedd Silff Arfordirol, Cemeg Deunyddiau, Deunyddiau a Dyfeisiadau Electronig, Niwrowyddoniaeth Wybyddol** ac **Ysgrifennu Creadigol**.

...buddsoddi mewn rhagoriaeth



Edrych tua'r DYFODOL



Yr Is-Gangellorion, Yr Atbro Merfyn Jones (Bangor) a'r Atbro Noel Lloyd (Aberystwyth) y tu allan i adeilad newydd y Cynulliad yng Nghaerdydd, yn llongyfarch ei gilydd ar y bid llwyddianus i sefydlu partneriaeth Ymchwil a Menter newydd.

Burw ymlaen â phartneriaethau ymchwil

Dyfarnwyd dros £7.5 miliwn i'r Brifysgol o Gronfa Ailgyflunio a Chydweithredu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Mewn project **Ymchwil a Menter** ar y cyd rhwng Bangor ac Aberystwyth bydd y ddwy Brifysgol yn rhannu £11m. Bydd hyn yn newid o bwys yng ngraddfa gweithgareddau ymchwil y ddau sefydliad, ac yn eu huchelgais a'u dulliau gweithredu. Yn y lle cyntaf bydd yr arian yn cynnal pedair canolfan ymchwil rhwng y ddau sefydliad. Bydd arian ychwanegol yn cynnal gwasanaeth integredig newydd i gefnogi a rheoli ymchwil a'r ffordd y caiff ei defnyddio mewn mentrau ar y cyd.

Mae project a arweinir gan Fangor, ac sy'n cynnwys Caerdydd ac Abertawe, i greu **Sefydliad Niwrowyddoniaeth Wybyddol Cymru** wedi cael cyllid o £5.17m, gyda £2m ohono'n dod i Fangor. Bydd y Sefydliad yn rhannu adnoddau ac arbenigedd o fewn Cymru, gan weithio nid yn unig o fewn academia ond hefyd o fewn diwydiant a'r sector iechyd. Mae hyn yn galluogi Bangor i barhau i gystadlu gyda'r goreuon yn y byd gydag ymchwil ym maes niwrowyddoniaeth.

"Mewn project Ymchwil a Menter ar y cyd rhwng Bangor ac Aberystwyth bydd y ddwy Brifysgol yn rhannu £11m."



...cyfres o ddatblygiadau o bwys

Ymwelodd y Prif Weinidog, Rhodri Morgan, â safle Canolfan yr Amgylchedd Cymru yn ddiweddar, gyda'r Atbro John Farrar a'r Is-Ganghellor, Yr Atbro Merfyn Jones, a befyd Dr Bridget Emmett prif wyddonydd yn y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg ym Mangor.

Cynlluniau uchelgeisiol i ehangu'r ystâd

Mae'r Brifysgol wedi dechrau cyfres o ddatblygiadau o bwys yn ymwneud â'n hystâd. Mae gwaith eisoes wedi dechrau ar **Ganolfan Datblygu Rheolaeth Ysgol Busnes Bangor**, project cyffrous gwerth £14m a gyllidir gan Gronfa Amcan 1 Datblygiadau Rhanbarthol Ewropeaidd, Cyngor Gwynedd a Llywodraeth y Cynulliad. Eisoes mae rhaglenni newydd yn cael eu datblygu yn barod ar gyfer agoriad y Ganolfan ym Medi 2007.

Mae derw lleol yn awr yn gorchuddio'r tu allan i **Ganolfan yr Amgylchedd Cymru** ar Ffordd Deiniol. Bydd yr adeilad blaengar a deniadol hwn, a gostiodd £7m, yn gartref i wyddonwyr o Ganolfan Ecoleg a Hydroleg Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol, a'r Brifysgol, a bydd yn ganolbwynt ar gyfer ymchwil a hyfforddiant ym maes gwyddor yr amgylchedd yng Nghymru.

Yn ogystal â hyn, mae'r Brifysgol wedi dechrau ar gynllun £35m i ehangu ac ad-drefnu **safle preswyl Ffriddoedd**. Ychwanegir dros 1,000 o ystafelloedd



newydd i gyd a cheir gwared ar neuaddau hŷn er mwyn creu 'pentref myfyrwyr' newydd a chyffrous.

Gan ystyried anghenion y Brifysgol a'r gymuned yn y dyfodol, mae'r Brifysgol wedi datblygu Strategaeth Ystadau flaengar ar gyfer y degawd nesaf i ddarparu addysg ac ymchwil mewn ystâd sy'n amlbwrpas, yn gynaliadwy ac yn addas ar gyfer amrywiaeth o wahanol ddibenion.

"Mae derw lleol yn awr yn gorchuddio'r tu allan i Ganolfan yr Amgylchedd Cymru."



Rhagoriaeth mewn DYSGU



Ellen Le Huray,
myfyriwr Seicoleg
trydedd flwyddyn
gyda'i iPod.

Addysg i'w clustiau!

Mae technoleg newydd yn helpu myfyrwyr gyda'u hastudiaethau. Mae iPods a chwaraewyr MP3 eraill yn cynrychioli'r dechnoleg ddiweddaraf i'w mabwysiadu gan yr **Ysgol Seicoleg**, ochr yn ochr â fideos a safleoedd gwe rhyngweithiol, er mwyn ymestyn a chryfhau'r ffordd mae myfyrwyr yn dysgu.

Mae myfyrwyr yn casglu gwybodaeth bellach, sy'n cael ei darparu gan rai o ddarlithwyr yr Ysgol Seicoleg, er mwyn cefnogi eu dysgu

"Rydym wedi bod yn darparu 'podcasts' o ddarlithoedd, yn cynnwys delweddau a ddefnyddiwyd yn y darlithoedd, i'w llwytho i lawr ar iPod," meddai Jesse Martin, Cymrawd Dysgu yn yr Ysgol Seicoleg. "Dydy ni ddim wedi dod o hyd i enghraifft arall o Brifysgol yn defnyddio podcast fel hyn."

Mae'r podcasts wedi cael croeso mawr gan y myfyrwyr. "Dwi'n meddwl bod y podcasts yn syniad gwych. Dim ots pa mor galed mae rhywun yn canolbwyntio mewn darlith dydych chi byth yn ei gymryd o i gyd i mewn ac, am yr wythnosau diwethaf, yr unig beth dwi wedi bod yn gwrando arno ar fy iPod yw darlithoedd niwroseicoleg!" meddai myfyrwraig ail flwyddyn, Isla Watson o Southampton.

"...am yr wythnosau diwethaf, yr unig beth dwi wedi bod yn gwrando arno ar fy iPod yw darlithoedd niwroseicoleg!"

Astudio'r Gwyddorau drwy'r Gymraeg

Mae'n ffaith fod prinder mawr o wyddonwyr dwyieithog i ateb y galw cynyddol amdanynt ym myd gwaith. Mewn ymgais i wella'r sefyllfa, penodwyd Dr Prysor Williams yn Gymrawd Dysgu fel rhan o gynllun 'Mantais' y Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg, sy'n cyllido ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym myd Addysg Uwch.

Fe wnaeth Prysor ei radd a'i ddoethuriaeth mewn Gwyddorau'r Amgylchedd ym Mangor; ac mae bellach yn gweithio yn **Ysgol yr Amgylchedd ac Adnoddau Naturiol**.

Mae'n un o nifer o staff mewn Ysgolion yn y Brifysgol sy'n datblygu addysg cyfrwng Cymraeg. Fel rhan o'i swydd, fe fydd yn helpu i ddatblygu modiwlau gwyddonol a daearyddol cyfrwng Cymraeg. Bydd hefyd yn cynnig dosbarthiadau tiwtorial yn y Gymraeg ac yn ailsefydlu cyn-fodiwlau dwyieithog a oedd ar gael gynt. Gan mai prin yw nifer gwyddonwyr dwyieithog, elfen arall o'i waith yw cydweithio gyda phrifysgolion eraill yng Nghymru i greu rhwydwaith o unigolion dwyieithog ym maes yr amgylchedd er mwyn hwyluso datblygiadau pellach. Drwy'r cydweithio rhwng staff mewn ysgolion eraill yng **Ngholeg y Gwyddorau Naturiol**, mae'n wir dweud y bydd dewisiadau ardderchog i fyfyrwyr y dyfodol ym Mangor a fydd yn dymuno astudio pwnc gwyddonol yn ddwyieithog.

...traddodiad maith o orchestion academaidd

Adroddiad ardderchog ar addysg athrawon

Mae'r **Ysgol Addysg**, sy'n un o brif ddarparwyr hyfforddiant athrawon yng Nghymru, ac yn arbennig o ran hyfforddiant cyfrwng Cymraeg, wedi cael adroddiad ardderchog ar Safonau ac Ansawdd mewn Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon. Mae hyn yn dilyn blwyddyn o archwiliad gan Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Yn yr adroddiad, dyfarnwyd Graddfa 1 i Fangor, sef y raddfa uchaf, am effeithiolrwydd addysgu, hyfforddi ac asesu darpar-athrawon. Mae Estyn yn disgrifio hyn fel "da gyda nodweddion eithriadol". Cafwyd fod ansawdd yr addysgu yn yr Ysgol yn dda, neu'n dda iawn, mewn mwy na 80% o'r sesiynau hyfforddi a arsylwyd. Yn y sesiynau gorau, disgrifiwyd tiwtoriaid y Brifysgol fel modelau rôl effeithiol iawn.



Roeddent yn disgwyl i'r hyfforddeion gyflawni gwaith o safon uchel yn gyson gan roi sialens iddynt ar y lefel briodol.

Tynnwyd sylw hefyd at gyfraniad neilltuol yr Ysgol i Gymru trwy ei chysiau cyfrwng Cymraeg.

Yn yr adroddiad, dyfarnwyd Graddfa 1 i Fangor, sef y raddfa uchaf, am effeithiolrwydd addysgu, hyfforddi ac asesu darpar-athrawon.



Rhagoriaeth mewn DYSGU



Shane Whisker, Linzi Hanscombe
ac Ailsa Lynn yn perfformio eu
traethawd hir ar y Rhodfa
Belgaidd.

Traethawd hir dramatig!

Portreadwyd derwyddon, goroeswyr
llongddrylliad, ffoaduriaid, cariadon a
phlant mewn perfformiad anarferol ar
Rhodfa Belgaid, Porthaethwy, wedi ei
seilio ar hanes, chwedlau a straeon sy'n
ymwneud â Phorthaethwy. Roedd y
sioe yn cynrychioli ffurf 'ymarferol' ar
draethawd hir tri myfyriwr ar eu
blwyddyn olaf.

Bu'r myfyrwyr hyn, Linzi Hanscombe,
Shane Whisker ac Ailsa Lynn yn
ymchwilio, ysgrifennu, cyfarwyddo,
cynhyrchu, llwyfannu a hybu'r sioc
ddrama, *Straeon yr Ynys - Stories worth
following*.

"Mae'r Sioe wedi rhoi cyfle i ni roi'r
sgiliau rydym wedi bod yn eu meistrolï
dros dair blynedd ar waith. Mae'r
amrywiaeth o straeon yn rhoi cyfle i ni
ddefnyddio arddulliau ac ymdriniaethau
gwahanol. Er ein bod wedi mwynhau'r
profiad yn fawr - dydy creu sioc ddim
tamaid llai o straen nag ysgrifennu
traethawd estynedig!" meddai Shane
Whisker.

*"Er ein bod wedi mwynhau'r
profiad yn fawr - dydy creu sioc
ddim tamaid llai o straen nag
ysgrifennu traethawd estynedig!"*



"Mae'r myfyrwyr yma wedi dilyn cwrs
sydd, o ran ei natur, yn cynnwys elfen
fawr o waith ymarferol. Rydym yn falch,
felly, o roi cyfle iddynt gyflwyno rhan
o'u gwaith ar ffurf ymarferol ac iddo
gael ei asesu tuag at eu marc terfynol,"
meddai'r Athro Densil Morgan, Pennaeth
Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau,
lle mae'r myfyrwyr yn astudio.



...darparu cyrsiau ar gyfer anghenion myfyrwyr a chyflogwyr

Achrediad unigryw yn duw'n ffrwyth

Mae seicolegwyr ôl-radd o safon uchel yn cael eu denu i astudio ar gyfer yr unig radd MSc mewn **Seicoleg Chwaraeon ac Ymarfer** i'w hachredu yng ngwledydd Prydain gan y *British Psychological Society* (BPS). Mae'r radd uwch hon, a ddysgir yn yr **Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer** yn un ffordd o ddod yn Seicolegydd Siartredig ac aelod llawn o'r BPS, sef y corff sy'n cynrychioli seicoleg a seicolegwyr ym Mhrydain.

Y radd MSc hon yw un o bum cwrs MSc sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd ymysg y cymwysterau ôl-radd sydd ar gael yn yr Ysgol. Eisoes gwelwyd gwerth mynd drwy'r broses achredu drwyadl gyda'r Ysgol yn denu carfan ehangach o seicolegwyr.

Mae gan yr Ysgol dri seicolegydd chwaraeon wedi eu hachredu gan y BPS ar y staff ac mae'n hynod falch mai hi yw'r Ysgol gyntaf i gael ei hachredu gan adran Seicoleg Chwaraeon newydd y BPS - gan fod seicoleg chwaraeon yn ddisgyblaeth gymharol newydd o'i chymharu â seicoleg ei hun.

Mae'r datblygiad hwn yn cyd-fynd yn dda â'r awydd i gynyddu nifer myfyrwyr ôl-radd yn y Brifysgol.

Mae Seicolegwyr Chwaraeon yn yr Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer wedi gweithio gyda thimau buyltio i wella eu perfformiad.

Labordy Sgiliau Nyrso

Camwch i mewn drwy un drws yn adeilad yr **Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd** a gellid maddau i chi am feddwl eich bod wedi eich cael eich hun, drwy ryw ryfeddod, mewn ward yn Ysbyty Gwynedd.

Mae'r holl gyfarpar y byddech yn disgwyl ei weld ar y ward yno. Mae Labordy Sgiliau Clinigol yr Ysgol, i bob diben, yn 'ward', gyda'r holl offer y byddai gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn disgwyl ei ddefnyddio wrth gyflawni gweithdrefnau clinigol o bob math. Mae'r sgiliau clinigol, y gellir eu hymarfer, yn cynnwys maethiad a bwydo, cymorth gyda hylendid personol, cynnal bywyd sylfaenol, defnyddio cathetr wrinol, golchi dwylo, trin clwyfau, tynnu pwythau a chodi pobl.

Un o dri Labordy Sgiliau yn y Brifysgol yw hwn; ceir y lleill ar safle dysgu'r Brifysgol yn **Ysbyty Glan Clwyd** a'i champws yn **Wrecsam**.

Philip Jones, myfyriwr, a Bethan Llwyd Jones, Darlithydd Ymarferwr, yn defnyddio'r Labordy Sgiliau.



"Gan fod y cyfarpar yn ein Labordai Sgiliau o'r un safon â'r hyn sydd i'w gael mewn ysbytai rhanbarthol, maen nhw'n dod â theori ac ymarfer nyrso modern yn nes at ei gilydd, gan roi cyfle i'n myfyrwyr ymarfer eu sgiliau clinigol mewn amgylchedd diogel," meddai Ruhi Behi, Pennaeth yr Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd.





YMCHWIL Arloesol

Drwy gaitatid cavedig Ei Ras Dug Marlborough © Pallas Blenheim



Brwydr Blenheim a ymladdwyd, yn ôl Dr Claydon, oberwydd ymrwymiad Lloegr i Ewrop Brotestannaidd a Christnogol.

Saeson llydan eu gorwelion

Mae Dr Tony Claydon o'r **Ysgol Hanes, Hanes Cymru ac Archaeoleg** yn tynnu at ddiwedd project ymchwil ar hunaniaethau cenedlaethol yn y cyfnod modern cynnar. Cafodd gyllid o bwys ar gyfer y gwaith hwn gan Ymddiriedolaeth Leverhulme a Chyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Yn y llyfr seiliedig ar y gwaith, a gyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Caergrawnt, a nifer o erthyglau, mae Tony Claydon yn dadlau nad oedd y Saeson yn y ganrif a ddilynodd y rhyfel cartref (1660-1760) yn bobl ynysig a senoffobig fel y cawsant eu portreadu gan y rhan fwyaf o haneswyr. Yn hytrach, roeddent yn pryderu llawer am les Protestaniaid y tu hwnt i'w ffiniau,

ac yn dal i deimlo'n rhan o 'Gristnogaeth' a oedd yn pontio ffiniau daliadau ac enwadau gan gofleidio pobl yn Sbaen, Yr Eidal a Ffrainc yn ogystal â chymdogion gogleddol. Roedd y Saeson felly'n Ewropeaid da iawn yn y cyfnod yma: ffaith sy'n hawlio ei chymharu â'r sefyllfa heddiw!

Mae staff yr Ysgol yn hynod falch o'r cyfleoedd newydd i gydweithio a geir drwy'r **Sefydliad Astudiaethau Canol Oesol a Modern Cynnar**. Un o'r cynlluniau ymchwil newydd rhwng prifysgolion Bangor ac Aberystwyth yw'r sefydliad hwn a bydd yn dod ag ysgolheigion o bob disgyblaeth sy'n astudio'r canrifoedd cyn 1750 at ei gilydd.

Mae staff yr Ysgol yn hynod falch o'r cyfleoedd newydd i gydweithio a geir drwy'r Sefydliad Astudiaethau Canol Oesol a Modern Cynnar




... a dull arloesol a chynhwysol o weithredu

Electroneg Blastig

I ddechrau cafwyd sain amgylchynol, y peth nesaf fydd fideo amgylchynol, goleuo ysgafn amgylchynol o bapur wal goleuol a reolir yn drydanol, a phapurau newydd electronig amser brecwast. Mae'r holl gynlluniau arloesol hyn ar y gorwel oherwydd datblygiadau cyflym mewn electroneg blastig.

Mae'r grŵp ymchwil Electroneg Polymerau, dan arweiniad Yr Athro Martin Taylor yn yr **Ysgol Electroneg**, yn hyrwyddo datblygu potensial electroneg blastig, gan edrych ar ffyrdd o atgynhyrchu'r nodweddion manwl iawn sydd eu hangen i ddiffinio cylchedau electronig. I wneud hyn maent yn defnyddio, er enghraifft, gyfleusterau'r cwmni UK-LMC (gweler tudalen 16). O dan arweiniad Yr Athro Taylor mae myfyriwr PhD, Francisco Gil-Martinez, wedi defnyddio laserau'n llwyddiannus i wneud transistorau o blastig i gyd lle mae'r nodwedd leiaf (1 micron) tua 60 yn llai na diamedr un blewyn gwallt dynol! Mewn projectau eraill, sydd wedi derbyn dros £0.5M o gyllid gan **Gyngor Ymchwil Peirianeg a'r Gwyddorau Ffisegol**, mae'r grŵp wedi bod yn edrych ar y rhesymau pam y gall transistorau plastig fynd yn ansefydlog, yn ogystal â gwneud a phrofi celloedd solar plastig.



Un o'r patrymau sy'n cael ei leibau'n ffotograffig i wneud transistor arbennig.

Pobl hŷn yn cynnal ymchwil

Mewn agwedd newydd arloesol a chynhwysol tuag at ymchwil, daeth nifer o wirfoddolwyr hŷn gydag **Age Concern** Gwynedd a Môn yn ymchwilwyr i **Ganolfan Ymchwil a Datblygiad Polisi Cymdeithasol** y Brifysgol. Aethant ati i lunio holiadur a hel data drwy holi pobl mewn oed o rai o gymunedau gwledig Gwynedd. Nod y project, a ariannwyd gan Gronfa Fawr y Loteri, oedd canfod yr anawsterau y mae'r bobl hŷn yn eu hwynebu wrth ofalu amdanynt eu hunain, neu gymar neu rieni.

Canlyniad y project RuralWIDE (**Menter Datblygu Cefnogaeth i Bobl Hŷn yng Nghefn Gwlad Gogledd Cymru**) oedd creu ffynhonnell sylweddol a dilys sy'n disgrifio barn pobl 75 oed a hŷn, sy'n byw eu hunain neu'n gofalu am gymar neu rieni hŷn fyth, ynghylch y gwasanaethau a'r cymorth yr hoffent eu cael i'w galluogi i fyw yn eu cymunedau. Bydd yr argymhellion yma yn ddefnyddiol i ddarparwyr gwasanaethau a gwneuthurwyr polisi ar gyfer holl ardaloedd gwledig.

“Nod y project, a ariannwyd gan Gronfa Fawr y Loteri, oedd canfod yr anawsterau y mae'r bobl hŷn yn eu hwynebu wrth ofalu amdanynt eu hunain, neu gymar neu rieni.”



YMCHWIL *Arloesol*



Bu'r Athro Virginia Gathercole (chwith) a Dr Enlli Thomas (dde) yn mynychu Cynbadledd lle cyboeddodd Gweinidog y Cynulliad, Jane Davidson, ddyfarnu'r arian ar gyfer eu hymchwil.

Mesur Safonol ar gyfer Geirfa Gymraeg

Mae arbenigwyr iaith yn yr **Ysgol Seicoleg** yn defnyddio'u harbenigedd i ddatblygu profion i'w defnyddio gan wahanol weithwyr proffesiynol yng Nghymru i asesu Cymraeg llafar plant. Bydd y profion yn rhoi safon y gellir ei defnyddio i fesur gallu ieithyddol plant sy'n siarad Cymraeg.

Ar hyn o bryd, ychydig o ddulliau mesur safonol Cymraeg ar gyfer datblygiad geirfa neu ramadeg plentyn, sydd gan athrawon, therapyddion lleferydd ac eraill sy'n gweithio gyda phlant. Maent yn gorfod defnyddio cyfieithiadau o brofion Saesneg, nad ydynt yn briodol i'r Gymraeg, neu ddefnyddio'u greddf bersonol ac offer ad hoc, wrth asesu gallu ieithyddol plentyn - er enghraifft, wrth asesu a oes angen cymorth ychwanegol ar y plentyn.

Mae grant o £90,000 gan Lywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol yn galluogi i'r Athro Virginia Gathercole a Dr. Enlli Thomas ddatblygu amrywiaeth o brofion ar gyfer plant rhwng 3 a 15 oed. Bydd y rhain yn ystyried ffactorau fel iaith y cartref, neu gyfrwng yr addysg, ac yn darparu safon gyfartalog i'w defnyddio wrth asesu plant.

“Bydd yr rhain yn darparu safon gyfartalog i'w defnyddio wrth asesu plant.”



...mewn sefydliad ymchwil o'r radd flaenaf

Y gyfraith yn amddiffyn bywyd guyllt

Er mai **Ysgol y Gyfraith** ym Mangor yw'r ddisgyblaeth fwyaf newydd yn y Brifysgol, eisoes galwyd arni i roi cyngor ar faterion rhyngwladol.

Mae un o'r darlithwyr, Richard Caddell, yn arbenigo mewn cyfraith ryngwladol, gyda diddordeb arbennig yn y warchodaeth gyfreithiol a roddir i forfilod, dolffiniaid a llamhidyddion a chryfderau a diffygion y fframwaith rhyngwladol i reoli'r rhywogaethau hyn. Un elfen allweddol yn y fframwaith hwn yw cytundeb rhanbarthol a elwir Cytundeb Cadwraeth Morfilod Bychain yn y Baltig a Môr y Gogledd (ASCOBANS). Mae'r cytundeb hwn wedi cael ei weithredu er 1995 ac mae'n ymdrin â bygythiadau i'r anifeiliaid hyn yn y moroedd yma.

Comisiynwyd Richard Caddell gan y World Wildlife Fund i bwysu a mesur y cynnydd a wnaed o dan ASCOBANS a chyflwyno ei ddarganfyddiadau i'r pumed cyfarfod teirblynyddol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o un ar ddeg o wledydd, yn ogystal ag aelodau amlwg o Raglen Amgylcheddol y Cenhedloedd



Llan gan F. Graner; b. Fjord & Baelt, Denmark

Llambidydd Harbur y Baltig

Unedig. Roedd papur Richard yn edrych yn arbennig ar y gwahanol gynlluniau a hyrwyddwyd o dan ASCOBANS hyd yma gan ddadansoddi hefyd y sefyllfa gyfreithiol anodd wrth fabwysiadu mesurau cadwriaethol mewn ardal sydd o dan awdurdodaeth yr UE yn unig. Roedd y papur yn cynnig cyfres o argymhellion a fydd yn cael eu cynnwys yn awr yn rhaglen waith deirblynyddol y Cytundeb.

“Roedd y papur yn cynnig cyfres o argymhellion a fydd yn cael eu cynnwys yn awr yn rhaglen waith deirblynyddol y Cytundeb.”



Chwarae ein rhan yn Y GYMUNED

Disgyblion Blwyddyn 10 Ysgol y Moelwyn
Blaenau Ffestiniog yn ymlacio yn ystod
ymweliad â'r Brifysgol.



'Dawn a Chyfle' yn esiaml dda i weddill Prydain

Tynnwyd sylw at y gwaith a wneir gan y Brifysgol i annog pobl ifanc o gefndiroedd gwahanol i ystyried addysg brifysgol fel enghraifft o ymarfer da mewn adroddiad a gyhoeddwyd gan yr UUK, sef y corff ambarél dros brifysgolion ym Mhrydain.

O dan y chwyddwydr mae **Rhaglen Dawn a Chyfle'r** Brifysgol, a ddisgrifir fel model ar gyfer ymarfer da. Nod y rhaglen hon yw codi dyheadau ac ymwybyddiaeth o addysg uwch ymysg pobl ifanc 14-16 oed o gymunedau nad oes llawer o'u pobl wedi mynd ymlaen i addysg uwch yn draddodiadol.

Dywed yr adroddiad am y Rhaglen Dawn a Chyfle: "Mae tystiolaeth glir bod y rhaglen yn cynnig cyfleoedd mewn addysg uwch i bobl ifanc dalentog na fyddent, heb y Rhaglen, wedi mynd i brifysgol. Un o gryfderau'r Rhaglen Dawn a Chyfle yw natur y berthynas sydd wedi datblygu gyda'r ysgolion."

Mae wyth ysgol uwchradd ar draws gogledd Cymru yn bartneriaid yn y Rhaglen. Golyga hyn bod staff a myfyrwyr o'r brifysgol yn cynnal gweithgareddau gyda dros 1,200 o ddisgyblion yn yr ysgolion hyn.

"Mae tystiolaeth glir bod y rhaglen yn cynnig cyfleoedd mewn addysg uwch i bobl ifanc dalentog..."

Cerddoriaeth i bawb!

Mae rhaglen **Cerddoriaeth ym Mangor** y Brifysgol yn darparu cyfres bwysig o gyngherddau clasurol ar gyfer gogledd orllewin Cymru, gan ddod ag amrywiaeth eang o gerddoriaeth gyfoes a chlasurol o fewn cyraedd cynulleidfaoedd yn y rhanbarth.

Er bod y gyfres yn denu cynulleidfau gyson, penderfynwyd y dylid rhoi mwy o amlygrwydd i'r cyngherddau er mwyn tynnu sylw cynulleidfaoedd newydd atynt. Yn dilyn ymgyrch gadarn llwyddwyd i gael cynnydd o 50% yn nifer y cynulleidfaoedd yn ystod y tymor, gyda'r holl docynnau i gyngerdd gwanwyn Cerddorfa Genedlaethol y BBC wedi eu gwerthu ddau ddiwrnod cyn y cyngerdd.

Ehangwyd y gyfres hefyd i gynnwys amrywiaeth helaethach o arddulliau cerddorol, yn cynnwys canu gwerin ac a cappella, gan ddod ag aelodau newydd o'r gymuned i gysylltiad â'r gyfres **Cerddoriaeth ym Mangor** a'r Brifysgol.

... rhoi rhywbeth yn ôl

Gwirfoddolwyr yn gwneud eu rhan

Yn lle gwyllo pencampwriaeth rygbi'r chwe gwlad, treuliodd grŵp o fyfyrwyr yn perthyn i **Wirfoddoli Myfyrwyr Bangor**, sy'n rhan o **Undeb y Myfyrwyr** yn y Brifysgol, ddydd Sadwrn yn glanhau gwastraff, a adawyd gan longau a thwristiaid, oddi ar un o draethau mwyaf poblogaidd gogledd Cymru - sef Porth Neigwl, ger Abersoch.

Llwyddodd y myfyrwyr i lenwi 25 o fagiau bin gyda gwydr, plastig, darnau o raffau, polystyren a llawer o wastraff arall a all niweidio pobl a bywyd gwyllt. Roedd hwn yn un o nifer o brojectau gwirfoddoli a gyflawnwyd gan wirfoddolwyr Bangor yn ystod y flwyddyn.

“Mae'r gwaith gwirfoddol a wneir gan fyfyrwyr Bangor yn agwedd hanfodol ar gymuned y Brifysgol ac o brofiad myfyriwr. Mae projectau gwirfoddoli yn galluogi i fyfyrwyr sy'n dod i Fangor i astudio gyfrannu at y gymuned yn gyffredinol. Gall gwirfoddoli hefyd roi'r cyfle i gael profiadau cadarnhaol a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau hollbwysig. Hoffwn ddiolch yn ddiffuant iawn i'r holl fyfyrwyr sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor,” meddai'r Is-Ganghellor, Yr Athro Merfyn Jones

Y gwirfoddolwyr yn dangos ffrwyth eu llafur yn dilyn yr ymdrech i lanbau'r traeth ym Mborth Neigwl.



At eu gwaith ym Mborth Neigwl

“Mae projectau gwirfoddoli yn galluogi i fyfyrwyr sy'n dod i Fangor i astudio gyfrannu at y gymuned yn gyffredinol.”



Chwarae ein rhan yn Y GYMUNED

'Seren Silicon' - seren wedi ei thorri allan o dafell silicon 0.5mm o drwch gan ddefnyddio laser. Mae silicon yn ddeunydd cyffredin iawn a ddefnyddir mewn sgloedion cyfrifiadurol a dyfeisiadau electronig eraill.

Gwasanaeth bychan

Lleolir un o wyth canolfan, a sefydlwyd i helpu diwydiant yn y DU fynd ati'n gyflymach i fabwysiadu micro a nanodechnoleg, yn **Ysgol Electroneg** y Brifysgol. Mae **Canolfan**

Microbeiriannu Laser y DU, neu UK-LMC, yn cael ei chydnabod yn gyffredinol fel Canolfan Ragoriaeth, gan fanteisio ar ddeng mlynedd o arbenigedd yn yr Ysgol.

Cwta flwyddyn ers ei sefydlu, mae'r UK-LMC wedi cyflawni ei holl dargedau perfformiad, gan ddarparu gwasanaeth cyflym a chyfrinachol i gwmnïau uwch-dechnoleg. Mae'r cwmni'n ennill bri fel prif ddarparwr microbeiriannu laser, gyda'i enw da ar gynnydd yn rhyngwladol.



Mae technegau microbeiriannu'n cynhyrchu nodweddion ar raddfa fechan iawn, trwch blewyn o wallt rhywun, neu lai na hynny hyd yn oed. Cynhyrchir y nodweddion bychan a manwl-gywir hyn trwy ddefnyddio laserau pŵer uchel. Defnyddir y dechnoleg lle bynnag mae lleihau maint gwahanol bethau yn fanteisiol, er enghraifft, mewn dyfeisiadau meddygol megis unedau profi siwgr yn y gwaed i bobl â diabetes, synwryddion nwy sensitif a chylchedau electronig bychan ar gyfer nwyddau modern fel ffônau symudol a Systemau Lleoli Byd-Eang (GPS).

Manteision i gwmnïau lleol

Mae'r **Ysgol Ieithoedd Modern** wedi dechrau ar berthynas waith gynhyrchol â **Ffilmiau'r Nant**, un o'r prif gwmnïau cynhyrchu Cymreig ar gyfer y cyfryngau. Mae'r cwmni, sy'n cynhyrchu nifer o raglenni Cymraeg poblogaidd, yn gweithio gyda'r Ysgol ar broiect PhD sy'n canolbwyntio ar ddatblygu gwefan y cwmni yn gyfrwng marchnata amlieithog. Mae'r project yn un o nifer yn y Brifysgol a gyllidwyd trwy gais am arian Amcan 1 i'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd.

Mae Tegau Andrews, a raddiodd o Fangor, yn defnyddio'r project i edrych ar faterion yn ymwneud â chyfieithu deunyddiau ar y we o'r Gymraeg ac i'r Gymraeg - maes sydd o bwys cynyddol i gwmnïau Cymreig mewn marchnad Ewropeaidd. Mae Tegau'n ddelfrydol i gyflawni astudiaeth o'r fath gan fod ganddi afael gadarn ar chwe iaith Ewropeaidd! Yn ogystal â siarad Gwyddeleg, Cymraeg a Saesneg fel brodor, graddiodd yn 2005 gyda dosbarth cyntaf mewn Ffrangeg, Sbaeneg ac Eidaleg. Mae'r Ysgol yn eithriadol awyddus i ddatblygu'r agwedd hon ar astudiaethau Ieithoedd Modern ac mae'n cynllunio gradd MA newydd mewn Cyfieithu i hyrwyddo ymhellach gysylltiadau â diwydiant, yn lleol ac ymhellach i ffwrdd.

"Mae UK-LMC yn manteisio ar ddeng mlynedd o arbenigedd yn yr Ysgol."



...denu ymchwilwyr, myfyrwyr a busnesau newydd i'r ardal

Ychwanegiad arall at rwydwaith Technium

Mae Technium diwedddara' Cymru, **Technium CAST**, eisoes yn profi ei werth, trwy ddenu cwmnïau blaengar i'r ardal gan greu swyddi sy'n galw am sgiliau o safon uchel a chan gynnig cyflogau da.

Lansiwyd **Technium CAST** fis Mai. Menter ar y cyd rhwng y Brifysgol a SERCO yw Technium CAST, sydd ym Mharc Menai ar gyrion Bangor, ac mae wedi ei noddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r UE. Nod y project yw manteisio i'r eithaf ar ddatblygiadau technolegol o fewn y Brifysgol, gan bontio rhwng y byd academiaidd a byd masnach, er budd i bawb.

Mae CAST yn canolbwyntio ar ddau brif faes; Ymchwil a Datblygu mewn dwy dechnoleg, sef delweddu a chyfathrebu, ac adfywio economaidd.



Mae gan y ganolfan £17.8 miliwn dechnoleg meddalwedd a delweddu chwyldroadol. Pan gafodd ei hagar, cyhoeddwyd partneriaeth gydag IBM i ddarparu'r cyfleusterau uwch dechnoleg meddalwedd a delweddu diweddaraf. Bydd y buddsoddiad technoleg uwch hwn gan IBM a CAST yn datblygu rhwydwaith a fydd yn galluogi'r **Ysgol Cyfrifiadureg** a'r Brifysgol i ddenu ymchwilwyr, myfyrwyr a busnesau newydd i'r ardal.

Yr Athro Sian Hope, Dirprwy Is-Ganghellor y Brifysgol ac un o Gyfarwyddwyr CAST gyda'r Gweinidog Andrew Davies AC yng nghyfarfod lansio CAST - yn gwyltio, mae Karen Padmore, Cyfarwyddwr Delweddu

“Nod y project yw manteisio i'r eithaf ar ddatblygiadau technolegol o fewn y Brifysgol, gan bontio rhwng y byd academiaidd a byd masnach, er budd i bawb.”



Uchafbwyntiau o 2005-2006

Dr Guo Peng o Brifysgol Yibin
a Dr Anita Malhotra



Tra oedd eraill yn dal i drafod y mater, daeth Bangor y brifysgol gyntaf yng Nghymru i wahardd ysmegu'n llwyr yn yr holl adeiladau a mannau a reolir gan y Brifysgol.

Yn ddiweddar derbyniodd Dr Anita Malhotra, o'r **Ysgol Gwyddorau Biolegol**, grant Project Ymchwil ar y Cyd gan y Gymdeithas Frenhinol i hyrwyddo cydweithio pellach mewn ymchwil i systemateg gwiberod pantio a biodaearyddiaeth yn Tsiena. Bydd hyn yn cyllido ymweliadau cyfnewid rhwng Bangor a **Phrifysgol Yibin**, Talaith Sichuan, Tsiena, dros y ddwy neu dair blynedd nesaf. Mae Bangor eisoes wedi croesawu Dr Guo Peng o Yibin rhwng Tachwedd 2005 a Medi 2006.



Y Gwir Anrhydeddus Hilary
Benn AS gyda rhai o fyfyrwyr
Rhyngwladol Bangor.

Yr Athro Nigel John yn derbyn ei wobwr
gan Richard M Satava MD FACS, Athro
Llawfeddygaeth ym Mbrifysgol
Washington a Phrifysgol Gwasanaethau
Gofal Iechyd y Lluoedd Arfog.



Daeth yr Athro Nigel John â gwobr ryngwladol i'r DU am y tro cyntaf. Enillodd yr Athro John Wobr Satava 2006, sy'n cydnabod a gwobrwyo gweledigaeth unigryw ac ymrwymiad i wella meddygaeth trwy ddefnyddio technoleg uwch. Mae'r Athro John yn arwain grŵp ymchwil Delweddu Perfformiad Uchel a Graffeg Feddygol yn yr **Ysgol Cyfrifiadureg**.

Cynhaliwyd **Noson Ryngwladol** lwyddiannus gan y **Ganolfan Gwasanaethau Myfyrwyr** fel rhan o Wythnos Amrywiaeth Undeb y Myfyrwyr. Mewn digwyddiad arall, bu myfyrwyr rhyngwladol y Brifysgol yn cyfarfod â'r Gwir Anrh. Hilary Benn AS, Gweinidog dros Ddatblygu Rhyngwladol. Yna, aeth y Gweinidog i ymweld â staff a myfyrwyr yn y **Ganolfan Astudiaethau Rhanbarthau Cras**.

Mae'r Brifysgol wedi gwella'n syfrdanol ei safle yn nhabl **The Guardian University Guide**, a hynny o 30 safle. Mae'r tabl yn adlewyrchu ansawdd dysgu a phrofiad myfyrwyr ac yn gosod y Brifysgol yn 38ain o 122 o sefydliadau a restrwyd yng ngwledydd Prydain.

Dyfarnwyd dros £40,000 mewn **gwobrwyon ysgoloriaeth** i fyfyrwyr yn dechrau ar eu cyrsiau ym Mangor.



Cyflwynwyd y Wobr i Rosemary Cripps gan yr Athro Peter Williams ar ran y Pwyllgor Chwaraeon a Hamdden.



Rosemary wrthi'n caiacio!

Rosemary Cripps, myfyrwraig **Bioleg Môr ac Eigioneg**, enillodd Wobr Goffa Llew Rees yn y Brifysgol eleni. Dyfernir hon i'r myfyriwr neu fyfyrwraig sydd wedi gwneud cyfraniad i chwaraeon, ar lefel genedlaethol ac yn y Brifysgol. Caiacio sy'n mynd â bryd Rosemary, ac mae ei llwyddiant yn y maes hwn yn syfrdanol, gan iddi ddechrau cystadlu o ddifrif dim ond ychydig dros flwyddyn yn ôl.

Enillodd ffilm fer gan ddau fyfyrwr o'r Brifysgol, Sarah Louise a Zac Halbert, wobwr bwysig *'Ffresb'* am y ffilm orau yn yr iaith Gymraeg, er gwaethaf y gystadleuaeth gref. Mae *'Ffresb'* yn hyrwyddo, dathlu ac ysbrydoli gwaith doniau newydd ymysg myfyrwyr sy'n astudio am raddau ym maes ffilm a'r



Sarah Louise a Zac Halbert yn derbyn eu Gwobr yn Ffresb.

cyfryngau yng Nghymru. Dangoswyd ffilm arall hefyd o waith y ddau am y tro cyntaf yn Stiwdio Barcud yng Nghaernarfon yn ystod y flwyddyn.

Dringodd aelodau **Cymdeithas**


Fynyddar Brifysgol i fuddugoliaeth ym Mhencampwriaeth Ddringo Cymdeithas Chwaraeon Prifysgolion Prydain drwy gael y sgôr uchaf drwodd a thro. Llwyddodd Bangor i gyrraedd y brig yn y dosbarth timau cymysg, er gwaethaf cystadlu yn erbyn 83 tîm arall.



Y tîm yn datblu eu buddugoliaeth!

Mewn papur a gyhoeddwyd yn *The American Naturalist*, mae Dr Darren Croft o'r **Ysgol Gwyddorau Biolegol** ym Mangor, a thîm ymchwil o Brifysgol Leeds, yn awgrymu y gall gypïod benywaidd (pysgodyn acwariwm poblogaidd) beryglu eu bywydau i osgoi gormod o sylw gan wrywod.

Llwyddodd niwrowyddonwyr yn yr **Ysgol Seicoleg** i gyfuno'n llwyddiannus ddau ddull gwahanol o fesur gweithgaredd yr ymennydd i ddatblygu dull newydd o adnabod pa rannau o'r ymennydd sy'n gyfrifol am wahanol swyddogaethau. Nododd y dull newydd y rhan sy'n gyfrifol am brosesu cof tymor byr a chafwyd adroddiad ar hynny yn un



Cronometreg feddylol gyda delweddu cyseinedd magnetig swyddogaethol (fMRI) ac electroencefalograffi (EEG)

o gyfnodolion gwyddonol mwya'r byd, *The Journal of Neuroscience*.

Tîm Synnwyr Busnes yn ystod eu lansiad busnes llwyddiannus.



Lansiwyd **Synnwyr Busnes - Business Sense**, gwasanaeth a fydd yn galluogi cwmnïau bychain i fynd i'r afael â datblygu cynaliadwy a'r hyn y mae'n ei olygu ar gyfer eu busnes. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim i gwmnïau bach a chanolig eu maint yn ardaloedd Amcan 1 yng Nghymru, ac mae'n cael ei gyllido'n rhannol gan Raglen Amcan 1 yr Undeb Ewropeaidd, Llywodraeth y Cynulliad a'r Brifysgol.

Bu Ian Gregson o **Ysgol y Saesneg** yn rhannu llwyfan ag un o gewri barddoniaeth gyfoes, Seamus Heaney, fel rhai a enwebwyd ar gyfer rhestr fer y *Forward Poetry Prizes*. Enwebwyd casgliad Ian Gregson, *Call Centre Love Song*, ar gyfer gwobr y Casgliad Cyntaf gorau o gerddi.



Ian Gregson



1



2



3

1: Mr Goronwy Cleaver
2: Yr Athro Russell Jackson
3: Yn y cefn mae Cyflwynwyr y Cymrodyr, chwirth-dde: Yr Athro Densil Morgan, Dr Wil Griffith, Dirprwy Is Gangbellor, Meri Huws a'r Athro Martin Taylor.
Y Cymrodyr er Anrhydedd gyda'r Is- Gangbellor, Yr Athro Merfyn Jones (canol) yw: Elinor Bennett, Hywel Williams, John Walter Jones OBE a Syr Richard Friend FRS.

4: Nicola Callow;
5: Yr Athro Margaret Deuchar, Pennaeth Ieithyddiaeth, gyda Dr Pam McDonald, Dr Carol Tully a'r Athro Merfyn Jones Is-Gangbellor;
6: Dr Nia Whiteley;
7: Dr Enlli Môn Thomas;
8: Dr Graham Clarke;
9: Dr Bianca Ambrose Oji;
10: Dr Jesse Martin

Cyflwynir **Cymrodoriaeth Er Anrhydedd y Brifysgol** i bobl sydd wedi gwneud cyfraniad mawr yn eu dewis faes a chanddynt gysylltiad agos â'r Brifysgol, y rhanbarth neu Gymru. Cyflwynwyd yr Anrhydedd i'r canlynol: **Elinor Bennett**, Telynores, am ei chyfraniad i Gerddoriaeth; **Goronwy Cleaver**, Rheolwr Gyfarwyddwr (Cayman) Cyf., am ei gyfraniad i ddatblygu'r Gyfraith ym Mangor; **Yr Athro Sir Richard Friend FRS**, Ffisegydd, am ei gyfraniad i wyddoniaeth; **Dr Raymond Garlick**, bardd a chyn fyfyrwr ym Mangor, am ei gyfraniad i lenyddiaeth (derbyniwyd y gymrodoriaeth ar ei ran gan ei fab, Iestyn Garlick); **Yr Athro Russell Jackson**, Cyfarwyddwr Sefydliad Shakespeare, Prifysgol Birmingham, am ei gyfraniad i astudiaethau llen a ffilm; **John Walter Jones OBE**, Cyn Brif Weithredwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg, am ei gyfraniad i'r iaith Gymraeg.

5



4



4

Hywel Williams, hanesydd; am ei gyfraniad i hanes a newyddiaduraeth.

Dyfarnwyd **Cymrodoriaethau Dysgu** i wyth o ddarlithwyr yn ystod Seremonïau Graddio'r Brifysgol, gan adlewyrchu cynnydd yn yr enwebiadau a dderbynnir gan ddarlithwyr eraill a chan fyfyrwyr. Yr wyth oedd:

Dr Pam Macdonald, Ysgol Ieithyddiaeth ac Iaith Saesneg; **Dr Carol Tully**, Ysgol Ieithoedd Modern; **Dr Nia Whiteley**, Ysgol Gwyddorau Biolegol; **Dr Graham Clarke**, Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd; **Dr Bianca Ambrose Oji**, Ysgol yr Amgylchedd ac Adnoddau Naturiol; **Dr Enlli Môn Thomas**, a **Dr Jesse Martin**, Ysgol Seicoleg.



6



7



9



8

10

10